St. Kentigern

HOSPICE & PALLIATIVE CARE CENTRE

HOSBIS A CHANOLFAN GOFAL



Adroddiad Effaith Blynyddol

1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026

Cynnwys

02.
Croeso ac Uchafbwyntiau
Cyflwyniad gan y Cadeirydd, uchafbwyntiau'r adroddiad, myfyrio ar y flwyddyn ac ymddeoliad Jane McGrath.

03.
Trosolwg Clinigol
Rydym yn dangos faint o gleifion mewnol a gafodd gymorth a'r hyn y mae cleifion a theuluoedd yn ei ddweud wrthym.

04.
Ein Heffaith
Rydym yn dangos sawl claf allanol a theuluoedd a gefnogwyd. Trafodir datblygiadau ym maes galar a lles gan gynnwys cyflwyno'r gwasanaeth ymolchi newydd.

05.
Stori Claf
Profiad personol John Haynes o'r Grŵp Llesiant Dynion.

06.
Amcanion Strategol a Perfformiad
Yr hyn a gyflawnwyd yn erbyn ein hamcanion, gan gynnwys heriau a wynebwyd. Blaenoriaethau'r dyfodol a'n heffaith amgylcheddol.

07.
Ein Pobl
Y staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gwneud ein gwaith yn bosibl, a rhai newidiadau a datblygiadau allweddol.

08.
Incwm a Chodi Arian
Incwm a gwariant y flwyddyn a pherfformiad ein gweithgareddau masnachol.

09.
Adolygiad Ariannol
Ein sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, buddsoddiadau a'r Polisi Cronfeydd.

10.
Llywodraethu
Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ac Is-bwyllgorau. Risg a Chydymffurfiaeth.

11&12.
Cyfrifon Statudol
Datganiad o Weithgareddau Ariannol a'r Fantolen ar 31 Mawrth 2026.

13.
Ein Diolch
Diolch i bawb a ddewisodd ein cefnogi. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar.

Cipolwg ar y flwyddyn

205
Derbyniadau i'r uned cleifion mewnol

759
Pobl a gefnogwyd drwy wasanaethau cleifion allanol

2,229
Arosiadau dros nos yn yr uned cleifion mewnol

36,000
Oriau a gyfrannwyd gan ein gwirfoddolwyr

£2,722,813
Wedi derbyn mewn rhoddion, codi arian, anrhegion mewn ewyllysiau a grantiau

Croeso gan ein Cadeirydd

Croeso i'n Hadroddiad Effaith ar gyfer 2025–26. Drwy gydol y flwyddyn, darparodd Hosbis Sant Cyndeyrn ofal lliniarol arbenigol a gofal diwedd oes, yn rhad ac am ddim, i bobl ledled Sir Ddinbych, gorllewin Sir y Fflint a dwyrain Conwy.



STEVE THOMAS
CADEIRYDD BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR

Parhaodd y galw am ein gofal ac am gymorth i deuluoedd yn uchel. Er gwaethaf yr heriau ariannol sy'n wynebu'r sector hosbisau yn ehangach, llwyddodd Hosbis Sant Cyndeyrn i ehangu ei gwasanaethau i gleifion er mwyn diwallu anghenion ein cymuned.

Serch hynny, rhoddodd costau cynyddol bwysau gwirioneddol arnom. Ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr a sicrhaodd fod y gofal hwn yn parhau, a hoffwn ddiolch i bob un ohonynt.

Mae llawer yn y tudalennau hyn i ymfalchïo ynddo.

Agorwyd ein Siop Fawr yn y Fflint ym mis Gorffennaf 2025, a chynyddodd gwerthiant ar draws ein siopau £203,477. Talodd grant o £67,000 am adnewyddu'r Hwb Llesiant, gan gynnwys ystafell ymolchi arbenigol a chegin wedi'i haddasu. Daethom â'r gwasanaethau cadw tŷ a golchi dillad yn ôl yn fewnol hefyd, fel bod y bobl sy'n cadw'r hosbis yn lân ac yn gyfforddus bellach yn rhan o'n tîm ein hunain.

Roeddem wedi cynllunio ar gyfer blwyddyn anodd yn ariannol, ac felly y bu. Ond, diolch i reolaeth ofalus, roedd ein diffyg cyn enillion ar fuddsoddiadau yn £176,129, gryn dipyn yn llai na'r £797,137 a gyllidebwyd. Mae rhagor o fanylion ar dudalen 09.

Neilltuwyd rhan o'r flwyddyn i gynllunio olyniaeth cyn i Jane McGrath ymddeol ym mis Mai 2026, ar ôl mwy na chwe blynedd o wasanaeth, yn gyntaf fel Metron yr Hosbis ac yn ddiweddarach fel Prif Weithredwr. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Jane am ei chyfraniad at ddatblygiad yr hosbis ac am y gofal eithriadol a ddarparwyd i'n cleifion a'u teuluoedd o dan ei harweinyddiaeth.

Rydym hefyd wedi croesawu Margaret Hollings fel Prif Weithredwr newydd yr Hosbis ar 1 Gorffennaf. Mae ganddi gyfoeth o wybodaeth am y sector ym meysydd gweithgareddau masnachol hosbisau, trawsnewid busnes, gweithrediadau, marchnata ac ymgysylltu.

Diolch am ddarllen, ac am bopeth a wnewch dros Hosbis Sant Cyndeyrn.



Trosolwg Clinigol

Mae'r hosbis yn cynnig uned 12 gwely i gleifion mewnol a chymorth amlddisgyblaethol i bobl ag anghenion gofal lliniarol cymhleth.

Aseswyd bod gan bob claf a dderbyniwyd gennym eleni anghenion o gymhlethdod canolig i uchel yn ôl mesur Palcom, dull cydnabyddedig o asesu cymhlethdod anghenion gofal lliniarol unigolyn.

Mae gofal ar yr uned yn dod â meddygon, uwch-ymarferwyr nyrsio, nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd at ei gilydd, ynghyd â ffisiotherapi, therapi galwedigaethol, cymorth i deuluoedd, ein gwasanaeth Nyrs Admiral, therapi celf a cherddoriaeth a therapïau cyflenwol. Mae'r Hwb Llesiant ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener i bobl sy'n byw gartref.

Mae'r hosbis wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Margaret Hollings, ein Prif Weithredwr, yw'r Unigolyn Cyfrifol, a Victoria Grimster, ein Metron, yw'r Rheolwr Cofrestredig.

Cysylltwch â ni
m.hollings@stkentigernhospice.org.uk | v.grimster@stkentigernhospice.org.uk

222
Atgyfeiriadau cleifion mewnol

205
Derbyniadau
92% o'r atgyfeiriadau

109
Derbyniadau ar gyfer gofal diwedd oes

96
Derbyniadau ar gyfer rheoli symptomau a gofal seibiant

2,229
Arosiadau dros nos

0
Yn 2025/26, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ffurfiol

Beth mae cleifion a theuluoedd yn ei ddweud wrthym

"I'r holl staff,

Ni fyddai geiriau byth yn ddigon. Des i atoch yn fenyw oedd wedi'i thorri, y tu mewn a'r tu allan. Mae eich cariad, eich cefnogaeth a'ch gofal wedi bod yn eithriadol, a dydw i ddim wedi teimlo cymaint o gariad ers amser maith.

Angylion ydych chi i gyd yn fy llygaid i. Bendith Duw arnoch chi i gyd.

O waelod fy nghalon, diolch xx"

"Roedd y gofal yn wych. Mae'r amgylchedd yn dawel ac yn llonydd. Roedd y tîm bob amser yn gwneud amser i siarad â ni, ateb ein cwestiynau a thawelu ein meddyliau ynghylch gofal mam. Pan oeddem yn poeni, roedd y staff yn gwrando, ac roeddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr.

Pe bai unrhyw beth y gallai'r hosbis ei wella, fy unig sylw fyddai fy mod yn dymuno bod gennych fwy o arian i ehangu'r gwasanaeth hwn, gan ei fod mor werthfawr. Mae pawb yn haeddu profiad fel hwn ar ddiwedd eu hoes, mewn amgylchedd mor ofalgar."

"Fe wnaethoch fy achub
Roeddwn yn teimlo wedi torri ac yn anobeithiol, yn barod i roi'r gorau iddi ac yn credu na fyddwn yn cerdded allan o'r fan hon. Roedd pawb a gyfarfuom yn llawn angerdd, gofal ac empathi. Roedd pob aelod o staff yn gyfeillgar, â synnwyr digrifwch ac yn creu ymdeimlad o iachâd a gobaith.

Dangosodd pawb sut y dylai amgylchedd gofal a lletygarwch fod. Roeddent yn esiamplau perffaith o broffesiwn gofalgar. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd, drwy roi o'u hamser, yn dangos pa mor bwysig yw'r lle hwn fel noddfa.


Ni allwn egluro pa mor wych ydych chi i gyd."

Ein Heffaith

Mae gofal Hosbis Sant Cyndeyrn yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'n huned cleifion mewnol. Mae'n cynnwys gwasanaethau llesiant, cymorth i deuluoedd a gofal profedigaeth sy'n parhau am fisoedd ar ôl marwolaeth.

Mae ein gwasanaethau'n cefnogi cleifion a theuluoedd ar bob cam o'u taith, o lesiant a rheoli symptomau i ofal arbenigol i gleifion mewnol ac ymlaen i'r cyfnod profedigaeth, gan sicrhau cefnogaeth dosturiol pan fo'i hangen fwyaf.

Mae'r Hwb Llesiant yn cynnig therapïau creadigol a chyflenwol, cyngor ymarferol a gofal ysbrydol er mwyn helpu pobl i fyw cystal â phosibl gyda'u salwch. Mae ein tîm Cymorth i Deuluoedd yn cynnig cwnsela a chymorth emosiynol, cymdeithasol a phrofedigaeth i oedolion a phlant. Ochr yn ochr â nhw, mae ein gwirfoddolwyr 'Hear and Now' yn cynnig clust i wrando i bobl sy'n wynebu salwch neu brofedigaeth, yn unigol a thrwy therapïau grŵp.



Mae ein gwasanaeth ymolchi newydd, a gyflwynwyd yn gynnar yn 2026 gyda chymorth grant o £67,000 gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, eisoes yn dangos canlyniadau cadarnhaol ac yn gwella ansawdd y gofal a ddarparwn.

327
Cymorth Profedigaeth i Deuluoedd

432
Hwb Llesiant

2222
Prydau Bwyd i Gleifion a Theuluoedd



Mae John Haynes (yn y llun ar y chwith) yn byw gyda ffibrosis yr ysgyfaint a diffyg y galon. Bob wythnos, mae'n mynychu Grŵp Llesiant Dynion yr hosbis. Dyma beth mae'r grŵp yn ei olygu iddo, yn ei eiriau ei hun.

Stori Claf: John Haynes

Pan gewch ddiagnosis, rydych yn teimlo'n unig. Pan glywch y gair "***hosbis***", rydych yn ofni'r gwaethaf. Mae fy salwch yn derfynol, a dyna pam mae'r hosbis yn golygu cymaint i mi.

I mi, roedd ymuno â'r grŵp hwn yn agoriad llygad. Dydych chi ddim ar eich pen eich hun. Mae gan bawb eu hofnau eu hunain, ond mae siarad amdanynt yn gwneud yr ofn yn llai. Mae bod yn yr hosbis yn codi'ch calon. Gallwch siarad am unrhyw beth.

Rwy'n gadael yn hapusach, yn teimlo'n ysgafnach.

Dydy fy ffrindiau gartref ddim eisiau gofyn sut ydw i. Yma, dyna'r peth cyntaf rydyn ni'n ei ofyn i'n gilydd: "*Sut wyt ti'n teimlo? Sut oedd dy wythnos?*"

Buom yn siarad am gerddoriaeth heddiw, y 70au. Dyna oedd cyfnod gorau fy mywyd. Roedd hi'n brynhawn da, ond mae pob prynhawn yn dda yn y grŵp. Doeddwn i ddim yn adnabod y bobl hyn o'r blaen, ac erbyn hyn rydyn ni i gyd yn ffrindiau da iawn.

Rydych yn cael gofal a phaned o de. Mae pob un ohonom yn cael paned, heblaw Lawrence, sy'n yfed dŵr.

Mae Barry, Ymarferydd Nyrsio'r hosbis, yn wych. Mae'n arwain y sgwrs.

Mae'n ddyn tyner iawn sy'n sicrhau ein bod i gyd yn teimlo'n gyfforddus o'r eiliad y cyrhaeddwn, ac mae'n mynd ar ein cyflymder ni.

Weithiau rwy'n teimlo'n flinedig iawn, ac os byddaf yn colli'r grŵp, mae Barry yn ffonio i wneud yn siŵr fy mod yn iawn. Mae fy ngwraig Sheila yno i mi 100%, ond mae cael Barry yn holi amdanaf yn gwneud i mi deimlo'n wych. Rwy'n gwybod bod yr hosbis wir yn gofalu amdanom.

Os oes angen siarad am rywbeth personol nad ydych am ei drafod gartref, gallwch siarad amdano yma gyda'r hogiau. Gallwn fynd yn ddyfnach i'r sgwrs os oes angen. Rydyn ni ar yr un daith ac yn cefnogi ein gilydd. Does neb yn barnu. Mae gan bawb ddiddordeb yn yr hyn sydd gan y lleill i'w ddweud.

Roeddwn yn teimlo'n flinedig heddiw, ond gosodais fy larwm i wneud yn siŵr na fyddwn yn colli'r grŵp. Rwy'n hoff iawn o ddod yma.

John Haynes

Amcanion Strategol a Pherfformiad

Mae ein strategaeth 2023–2028 yn nodi chwe amcan.

Dyma beth wnaethom ei gyflawni yn erbyn pob un yn 2025–26.

Amcan **01**

Datblygu ein model gofal

Talodd grant cyfyngedig o £67,000 ar gyfer adnewyddu'r Hwb Llesiant, gan gynnwys ystafell ymolchi arbenigol a chegin wedi'i haddasu. Agorodd y gwasanaeth ymolchi newydd ym mis Ebrill 2026, ac mae'r canlyniadau cynnar yn galonogol iawn.

Amcan **02**

Bod yn gyflogwr ac yn gyrchfan o ddewis i wirfoddolwyr

Y llynedd, agorwyd ein Siop Fawr yn y Fflint a daethom â gwasanaethau cadw tŷ a golchi dillad yn fewnol. Cynyddodd ein gweithlu cyfartalog o 85 i 104 (gan gynnwys nifer o bobl ar gontractau dim oriau). Cyfrannodd 311 o wirfoddolwyr gyfanswm o 36,000 o oriau.

Amcan **03**

Sicrhau cynaliadwyedd ariannol

Rydym wedi parhau i gydweithio â Hosbisau Cymru a Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith comisiynu ar gyfer gwasanaethau hosbis yng Nghymru. Yn absenoldeb y fframwaith, derbyniodd yr hosbis Grant Sefydlogi untro o £242,626 ym mis Mawrth 2026, a roddodd gymorth gwerthfawr i gynnal gwasanaethau ac ymateb i heriau ariannol parhaus.

Amcan **04**

Dysgu ac addysgu

Mae buddsoddi yn ein tîm Uwch-ymarferwyr Nyrsio wedi galluogi'r hosbis i ddarparu gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos. Llongyfarchiadau i Rachel Garrett, ein Huwch-ymarferydd Nyrsio dan Hyfforddiant, ar ei chynnydd yn ei hastudiaethau, ac i'n Metron Victoria Grimster ar ei chynnydd gyda'r MSc mewn Ymarfer Proffesiynol ym maes Iechyd, gan helpu i gryfhau'r gofal arbenigol a ddarperir i gleifion.

Amcan **05**

Gweithio mewn partneriaeth

Drwy gydweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rydym wedi sicrhau mynediad amserol at ofal lliniarol arbenigol i gleifion mewnol, gyda 92% o'r atgyfeiriadau'n arwain at dderbyniad. Mae hyn wedi galluogi mwy o bobl i gael y gofal cywir, ar yr adeg gywir ac yn y lleoliad mwyaf priodol, gan leihau arosiadau diangen yn yr ysbyty a lleddfu'r pwysau ar y GIG.

Amcan **06**

Codi ymwybyddiaeth

Daeth digwyddiadau ac ymgyrchoedd cymunedol â'r hosbis i gysylltiad â miloedd o bobl leol, cwmnïau a sefydliadau, gan godi £670,000 drwy roddion, grantiau a gweithgareddau codi arian yn unig.

Ein Heffaith Amgylcheddol

177,920
Eitemau ail-law a werthwyd, 37,675 yn fwy na'r llynedd.

2,503
Eitemau trydanol a gafodd ail fywyd.

453
Coed Nadolig a gasglwyd ac a ailgylchwyd.



Heriau a Blaenoriaethau

Yn wyneb costau cyflogau cynyddol, chwyddiant ac ansicrwydd parhaus ynghylch cyllid, ein ffocws yw cynnal a datblygu ein gwasanaethau, cyflawni ein cynllun blynyddol, gweithredu Strategaeth Cynhyrchu Incwm ddiwygiedig, nodi arbedion effeithlonrwydd lle bo modd, a gweithio gyda phartneriaid ledled Cymru i ddatblygu dull teg a chynaliadwy o gomisiynu gofal lliniarol a gofal diwedd oes.



Ein Pobl

Roedd cyfartaledd o 104 o bobl yn gweithio i'r hosbis yn ystod y flwyddyn, o gymharu ag 85 y flwyddyn flaenorol.

Daeth y rhan fwyaf o'r twf hwnnw o ddod â gwasanaethau cadw tŷ a golchi dillad yn fewnol ac o staffio ein Siop Fawr newydd yn y Fflint. Roedd gennym hefyd staff banc ar alwad, yn gweithio ar draws gwahanol adrannau gwasanaethau cleifion, cadw tŷ a Caffi Cariad.

Mae ein gwirfoddolwyr yn gweithio yn bron pob rhan o'r hosbis: yn y dderbynfa ar gyfer cleifion mewnol, wrth groesawu pobl, yn ein siopau ac yn Caffi Cariad, ym maes cefnogaeth profedigaeth a gwasanaethau caplaniaeth, yn ogystal ac mewn llawer o'n prif ddigwyddiadau codi arian.

Cefnogodd ein gwirfoddolwyr ymroddedig 885 o gefnogwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian allweddol, gan gynnwys y Ras Liwiau, yr Ymgyrch Ailgylchu Coed Nadolig a'r Daith Gerdded Dros Dân.

Mae ein Grwpiau Cefnogi yn Ninbych, Prestatyn ac Abergele ymhlith llysgenhadon pennaf yr hosbis. Gyda'i gilydd, cododd eu 36 o wirfoddolwyr £13,071 drwy ddigwyddiadau cymunedol ledled yr ardal.



311
Gwirfoddolwyr


36,000
Oriau

£484,000
Arbedion mewn Costau Cyflogau

Incwm a Chodi Arian

Rhoddodd ein cymuned £2,722,813 eleni drwy roddion, codi arian, anrhegion mewn ewyllysiau a grantiau.

Mae £843k o hynny wedi dod o anrhegion mewn ewyllysiau. Mae pob un yn anrheg gan rywun a ddewisodd gofio am y gwasanaeth hosbis, ac rydym yn ddiolchgar iddyn nhw a'u teuluoedd.



Dadansoddiad o gyfanswm y gwariant £4,511k

- 70% Costau gwasanaethau clinigol £3,158k
- 17% Cyflogau cynhyrchu incwm £757k
- 13% Costau cynhyrchu incwm nad ydynt yn gyflogau £596k



Dadansoddiad o gyfanswm incwm £4,335k

- 34% Incwm statudol £1,474k
- 19% Anrhegion mewn ewyllysiau £843k
- 19% Incwm manwerthu £837k
- 7% Rhoddion £301k
- 6% Caffi Cariad ac incwm arall £265k
- 6% Codi arian £245k
- 6% Loteri £244k
- 3% Grantiau £126k

Ein siopau, y Loteri a Chaffi Cariad



Gwerthiant siopau
£837,076
cynnydd o £203,477
o flwyddyn i flwyddyn



Incwm Loteri
£243,669



Caffi Cariad
£253,364
incwm blynyddol

Trosglwyddodd elw ein Cwmni Masnachu (Manwerthu a Chaffi Cariad) dros £207,855 i'r elusen, a chyflwynodd ein Cwmni Hyrwyddo (Loteri) £133,979.



Adolygiad Ariannol

Daethom â'r flwyddyn i ben gyda diffyg o £176,129 cyn enillion ar fuddsoddiadau, llawer yn llai na'r diffyg o £797,137 yr oeddem wedi cyllidebu ar ei gyfer.

O ganlyniad i enillion heb eu gwireddu o £201,479 ar ein buddsoddiadau, cynyddodd cyfanswm ein cronfeydd £25,350 yn gyffredinol. Nid arian parod yw enillion ar fuddsoddiadau, a gall eu gwerth ostwng yn ogystal â chodi.

Gostyngodd yr incwm a dderbyniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ychydig, o £7,024, yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthbwyso gan grant sefydlogi untro o £242,626, gan Lywodraeth Cymru, gan arwain at gynnydd cyffredinol o £95,945 mewn cyllid statudol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae ein Polisi Cronfeydd yn ei gwneud yn ofynnol inni gynnal o leiaf chwe mis o gostau gweithredu arferol, sy'n cyfateb i £2,413,134.

Rydym yn parhau i wynebu costau cyflogau a gweithredu cynyddol, ansicrwydd ynghylch cyllid statudol, ac ansicrwydd naturiol incwm codi arian ac anrhegion mewn ewyllysiau.

"Aeth y staff gam ymhellach i helpu fi a fy nheulu."

Elusen gofrestredig 519931. Cwmni 02216886.
Swyddfa gofrestredig: Upper Denbigh Road, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0RS.
Archwilwyr: Salisbury & Company Business Solutions Limited.

Llywodraethu

Mae Hosbis Sant Cyndeyrn yn elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant, a lywodraethir gan ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyfarfod â'r tîm rheoli gweithredol bob deufis. Etholir ymddiriedolwyr yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol, ac mae ymddiriedolwyr newydd yn cael sesiwn ymsefydlu ac adolygiad o'u sgiliau. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd.

Rydym wedi'n cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian ac yn dilyn y Cod Ymarfer Codi Arian. Ni ddefnyddiwyd unrhyw godwyr arian proffesiynol gennym yn ystod y flwyddyn.

Alison Evans oedd Trysorydd yr hosbis yn ystod y cyfnod ac ymddeolodd ar 24 Chwefror 2026. Gareth Hughes sydd wedi cymryd ei lle.

Risg a Chydymffurfiaeth

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dibynnu ar ei Bwyllgorau Ansawdd a Diogelwch, Cyllid, Materion Cyffredinol, ac Archwilio a Llywodraethu i ddarparu goruchwyliaeth gadarn o risg, cydymffurfiaeth, ansawdd, cynaliadwyedd ariannol a llywodraethu da, gan sicrhau bod yr hosbis yn parhau'n atebol ac yn cael ei rheoli'n effeithiol.

Ymddiriedolwyr Cyfredol

Steve Thomas (Cadeirydd)
Jon Osborne (Is-gadeirydd)
Randal Owen
Angela Hind
Gren Kershaw
Glyn Jones OBE
Adrian Thomas
John Thomas
Rhian Clarke
Rhian Williams
Professor Fiona Irvine
Dr Andrew Dalton
Dr Chris Wallace

Ymddiriedolwyr newydd

Gareth Hughes
Jo Kent





Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026	2026	2025
INCWM		
Rhoddion, cymynroddion a grantiau	2,743,357	2,479,366
Gweithgareddau masnachu eraill	1,579,059	1,435,909
Incwm buddsoddiadau	9,953	10,567
Incwm arall	2,769	(4,295)
Cyfanswm incwm	**4,335,138**	**3,921,547**
GWARIANT		
Codi arian	1,353,511	1,114,549
Gweithgareddau elusennol	3,157,755	2,767,168
Cyfanswm gwariant	**4,511,267**	**3,881,716**
INCWM (GWARIANT) NET	**(176,129)**	**39,831**
Enillion ar ailwerthuso buddsoddiadau	201,479	39,286
Symudiad net yn y cronfeydd	**25,350**	**79,117**
CYSONI CRONFEYDD		
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen	6,118,887	6,039,770
CYFANSWM CRONFEYDD A GARIWYD YMLAEN	**6,144,237**	**6,118,887**



Gyda diolch i bawb a adawodd rodd mor hael i Hosbis Sant Cyndeyrn yn eu hewyllys.

£843,142
Anrhegion mewn ewyllysiau

Y Fantolen ar 31 Mawrth 2026	2026	2025
ASEDAU SEFYDLOG		
Asedau diriaethol	3,406,014	3,295,552
Buddsoddiadau	2,362,151	2,110,672
	5,768,165	**5,406,224**
ASEDAU CYFREDOL		
Dyledwyr	101,997	390,077
Arian yn y banc ac mewn llaw	524,745	505,005
	626,742	**895,082**
CREDYDWYR		
Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(250,671)	(182,419)
ASEDAU CYFREDOL NET	376,072	712,663
ASEDAU NET	**6,144,237**	**6,118,887**
CRONFEYDD		
Cronfeydd anghyfyngedig: Cronfa gyffredinol	5,695,309	5,756,595
Cronfeydd cyfyngedig:		
Cronfa ehangu cyfalaf	446,928	362,292
Cronfa Hospital Saturday	2,000	
CYFANSWM CRONFEYDD	**6,144,237**	**6,118,887**

St. Kentigern
HOSPICE & PALLIATIVE CARE CENTRE
HOSBIS A CHANOLFAN GOFAL

Digwyddodd popeth yn yr adroddiad hwn oherwydd bod pobl wedi dewis helpu.

I'r cleifion a'r teuluoedd sy'n caniatáu inni rannu rhai o eiliadau pwysicaf bywyd: **diolch am eich ymddiriedaeth**. Mae cael gofalu amdanoch yn fraint.

I bawb a roddodd arian, gododd arian, gwirfoddolodd, mynychodd ddigwyddiad, wnaeth fwyta yng Nghaffi Cariad, siopa yn ein siopau, a rannodd ein negeseuon neu a siaradodd o blaid yr hosbis: diolch.

Mae pob gweithred o gefnogaeth a charedigrwydd yn helpu i gadw gofal hosbis arbenigol yn rhad ac am ddim i bobl leol pan maen nhw ei angen fwyaf.

Boed i chi gefnogi Hosbis Sant Cyndeyrn ers blynyddoedd maith neu wedi ymuno â ni'n ddiweddar, rydych yn rhan o bopeth rydym yn ei gyflawni.

Ar ran ein cleifion, ein teuluoedd, ein gwirfoddolwyr, ein staff a'n hymddiriedolwyr, diolch am sefyll gyda ni yn 2025–26.

Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i ddarparu cysur, urddas a chefnogaeth i bobl sy'n byw gyda salwch cyfyngu bywyd, ac i'r bobl sydd agosaf atynt.

Partneriaid Corfforaethol, Cefnogwyr sy'n Cyfrannu Nwyddau neu Wasanaethau, Cyrff sy'n Dyfarnu Grantiau a Sefydliadau 2025/26

Abergele Golf Club
Age Cymru
The Albert Hunt Trust
Alpha Business Supplies
Amphletts Solicitors
Barclays Bank Plc
Bernard Piggott Charitable Trust
Cariad Gin
Castle Carpets
Castle Green Homes
Chesterton Grants
Chlobo Jewellery
Clwyd Alyn Housing Association Ltd
Clwyd Vale Motors
Continental Diamond Tools
Conwy Brewery
Countrywide Freight
Denbigh Golf Club
Denbigh Timber
Denbighshire County Council – DVSC
Denbighshire Memorial Park & Crematorium
EvadX Limited
Edward Hughes Solicitors
Flintshire Memorial Park & Crematorium
Ford Britain Trust
Fred Western (Electrical Contractors) Ltd
G-Force
Gamlins Solicitors
George & Dragon
Greenthumb Ltd
Henllan Bakery
Hill & Roberts, Chartered Accountants
Holywell Golf Club
JRS Mechanical Services Ltd
Jennings Building & Civil Engineering
John Owens Solicitors
Jones Brothers K & C Construction Ltd
Lobitos Tyres
Mackenzie Jones Solicitors
Matalan Support Hub
Mug Run
Nationwide Building Society
Now to Bed
Obsidian IT Services
Pen Y Bryn Joinery
Pentre Mawr
Prestatyn Golf Club
Powells Jewellerys
PRS Solicitors
Pudding Compartment
Qioptiq Ltd
Rhuddlan Golf Club
RN Williams & Sons
Roger Jones (now Jewson)
RPG
Ruthin Support Group
Salisburys Accountants St Asaph
Santander UK plc
Sir Donald & Lady Wilson Charitable Trust
Slaters Garage
Specsavers Opticians
St Melyd Golf Club
Supertemps Ltd
Swayne Johnson Solicitors
Synthite Ltd
T Conchars & Sons Funeral Directors
TG Williams Builders Ltd
Tesco Stores Plc
The Hospital Saturday Fund
Thorncliffe Building Supplies Ltd
Lighting
Threeways Garage Ltd
TRB Ltd
Voel Holidays Ltd
The Whitehouse
Worldspan Group
Wynne Construction

Crëwyd yr adroddiad hwn gan LAFAN CYF ac fe'i hargraffwyd gan W.O. Jones.